Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Cyngor Blaenau Gwent

# Gadewch i ni siarad am GYMORTH YCHWANEGOL



# Y CAM PWYSICAF

Gall fod yn anodd ceisio ymdopi gyda chyllid a rheoli cyfrif ynni, ond gall eich cyflenwr roi help llaw os ydych yn:

- Pryderu am dalu eich biliau trydan neu nwy
- Ei chael yn anodd fforddio rhoi arian yn eich mesurydd
- Angen cymorth tymor byr neu fod eich amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar

beth yw hynny neu ble i ddechrau. Felly cafodd y canllawiau syml hyn eu paratoi i helpu.

Ar ôl derbyn y canllawiau yma, ffoniwch eich cyflenwr os oes angen a dweud wrthynt am eich sefyllfa ac unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych. Pan ydych yn cysylltu â nhw, dylai eich cyflenwr fedru roi'r cyngor, help a chefnogaeth rydych ei angen.

# CAEL PETHAU DAN REOLAETH

**Rwyf angen help – beth ddylwn ei wneud yn awr?**
Os ydych yn ei chael yn anodd talu eich biliau neu fforddio rhoi arian yn eich mesurydd blaendalu, ffoniwch eich cyflenwr yn syth - dylai eu rhif fod ar eich bil neu gyfriflen.

**A all rhywun arall siarad ar fy rhan?**
Gallant. Dylent fod gyda chi pan fyddwch yn ffonio gan y gall fod angen i chi roi caniatâd i'ch cyflenwr i siarad gyda nhw.

**Sut y gallaf gadw mewn rheolaeth o fy nghyfrif ynni?**
Mae nifer o wasanaethau a all helpu i wneud cadw mewn rheolaeth o'ch cyfrif ynni mor rhwydd a di-straen ag sy'n bosibl. Gallai hyn fod yn gwneud yn siŵr eich bod ar y tariff cywir, neu dderbyn eich biliau mewn fformat gwahanol.

**A allwn fod yn gymwys am daliadau grant a chymorth ychwanegol gan y Llywodraeth?**
Mae cynlluniau i helpu os ydych mewn dyled neu os ydych angen help neu gefnogaeth ychwanegol mewn unrhyw ffordd. Mae hefyd rai taliadau gan y llywodraeth y gallech fod yn gymwys amdanynt.
**Rydym wedi rhoi mwy o wybodaeth ar dudalen 7.**

**Pa help a chefnogaeth arall sydd ar gael?**
Mae llawer o sefydliadau eraill yn cynnig help, o gyngor arbed ynni a rheoli arian i wybodaeth gyffredinol am beth bynnag sy'n eich poeni. **Gallwch ganfod mwy ar dudalen 8.**

**Sut y gallaf wella fy effeithiolrwydd ynni?**
Gwnewch ychydig o newidiadau bach i'ch arferion bob dydd a gallech fanteisio o arbedion costau ar eich biliau. **Darllenwch ein cynghorion syml a gyda phwy i siarad ar dudalen 9.**

# SUY Y GALL EICH CYFLENWR EICH HELPU?

**Gall gwybod beth i ofyn amdano, neu ba wybodaeth rydych ei angen wrth siarad gyda'ch cyflenwr, wneud gwahaniaeth mawr a'i gwneud yn llawer rhwyddach iddynt eich helpu.**

**Dyma rai o'r pethau y gall eich cyflenwr i helpu i gael y gorau allan o'ch cyfrif:**

- Gweld os ydych ar y **tariff cywir ar eich cyfer**
- Gweld os ydych ar y **dull talu gorau** i chi
- **Eich helpu os ydych ar ei hôl hi** gyda'ch biliau ynni
- **Eich helpu i ddeall** eich biliau a'ch mesurydd
- **Eich helpu os na fedrwch roi arian** yn eich mesurydd
- Gweld os gellid cynnig **unrhyw wasanaethau defnyddiol eraill i chi**
- Gweld pa gymorth y gellid ei gynnig **os yw eich amgylchiadau** wedi newid yn ddiweddar
- Gweld os ydych yn gymwys am **Ostyngiad Cartref Cynnes** – taliad o £140 at eich costau ynni



# YDYCH CHI'N MEDDWL Y GALLECH FOD ANGEN HELP NEU GYMORTH YCHWANEGOL?

## Gwasanaethau Blaenoriaeth

**Gall fod cymorth ychwanegol ar gael i chi, felly dywedwch wrth eich cyflenwr os:**

- Yw eich amgylchiadau wedi newid
- Ydych angen mwy o amser i dalu eich bil
- Ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn oedrannus, ag anabledd, â phlant ifanc neu salwch hirdymor (yn cynnwys dibynnu ar gyflenwad trydan ar gyfer meddyginiaeth neu offer).

Gall eich cyflenwr eich helpu i ganfod y cymorth cywir neu sefydliadau a all helpu eich sefyllfa.

Mae gan lawer o gyflenwyr Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth a all hefyd eich helpu gydag unrhyw anghenion cyfathrebu, mynediad a diogelwch. Mae'n rhad ac am ddim a gall gynnwys:

- **Cyfathrebu mewn fformat arall:** derbyn biliau a gohebiaeth mewn Braille, print bras neu CD sain
- **Cynllun cyfrinair:** pan fydd eich cyflenwr yn galw neu'n ymweld, gallant ddefnyddio cyfrinair o'ch dewis i gadarnhau pwy ydynt
- **Enwebu rhywun i weithredu drosoch:** gyda'ch caniatâd gall cyfaill, gofalwr neu berthynas eich helpu gyda phob agwedd o'ch cyfrif
- **Gohebiaeth trydydd parti:** cael anfon copïau o'ch biliau a gohebiaeth at gyfaill, gofalwr neu berthynas
- **Gwasanaeth dehonglydd:** Os nad Saesneg yw eich dewis iaith neu iaith gyntaf, all dehonglydd fod ar gael ar gyfer galwadau ffôn

## YDYCH CHI'N CREDU Y GALLECH FOD ANGEN HELP NEU GEFNOGAETH YCHWANEGOL?

- **Minicom (ffôn testun):** cyfathrebu dros ffôn testun i alluogi cyswllt rhwyddach
- **Darllen mesurydd yn rheolaidd:** gwasanaeth darllen mesurydd am ddim os na allwch chi neu rywun arall yn eich aelwyd ddarllen eich mesurydd
- **Symud mesurydd blaendalu am ddim:** os nad ydych chi neu rywun yn eich aelwyd yn medru mynd at eich mesurydd yn ddiogel (mae meini prawf ar gymhwyster)
- **Cnocio ac aros:** rhoi mwy o amser i chi ateb y drws os yw'ch cyflenwr yn ymweld
- **Gwiriad diogelwch nwy am ddim:** i wirio fod eich cy farpar nwy yn gweithio'n ddiogel (mae meini prawf ar gymhwyster)
- **Cymorth ar gyfer colli pŵer/ymyriad ar bŵer** gyda'ch caniatâd chi, gall eich cyflenwr rannu gwybodaeth gyda chwmnïau rhwydwaith fel y gellir eich cefnogi os ydych yn colli eich cyflenwad nwy a/neu drydan yn sydyn. Os ydych yn ychwanegu cyswllt arall, tebyg i gyfaill, gofalwr neu berthynas, cysylltir â chi i'ch hysbysu am eich colled pŵer

**I gael mwy o fanylion siaradwch gyda'ch cyflenwr neu ffonio'r rhif ar eich bil.**

**GWASANAETH CYMORTH YCHWANEGOL:**

Os ydych angen help ychwanegol gyda'ch ynni, gallwch hefyd fod am gofrestru am help gyda'ch gwasanaethau eraill. Mae cwmnïau dŵr yn cynnig gwasanaethau cymorth ychwanegol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

**ofwat.gov.uk/households/customer-assistance**
neu i siarad gyda'ch cyflenwr dŵr, ffoniwch y rhif ar eich bil.

## YMDDIRIEDOLAETHAU A GRANTIAU ERAILL

Mae gan lawer o gyflenwr gynlluniau defnyddiol ar gyfer eu cwsmeriaid sy'n ei chael yn anodd talu dyled ynni neu sydd angen cyfarpar tŷ newydd yn lle cyfarpar sydd wedi torri neu mewn cyflwr gwael.

**Y peth gorau yw cysylltu â'ch cyflenwr i ganfod pa gymorth sydd ar gael ac ar gyfer meini prawf cymhwyster.**



# TALIADAU GAN Y LLYWODRAETH

Mae'r rhain yn daliadau a wneir yn uniongyrchol i chi gan y llywodraeth os ydych yn ateb rhai meini prawf ar gymhwyster.

**Gostyngiad Cartref Cynnes**
Mae hwn yn daliad tuag at eich costau ynni a chaiff ei reoli gan y cyflenwyr ynni sy'n cymryd rhan. Mae dwy ffordd i gymhwyso: os ydych yn gymwys ar gyfer Grŵp Craidd cewch eich hysbysu gan y Llywodraeth neu eich cyflenwr; os nad ydych yn gymwys am Grŵp Craidd gallech gysylltu â'ch cyflenwr i weld os ydych yn gymwys am y Grŵp Ehangach.

**Taliad Tywydd Oer**
Mae hwn yn daliad ychwanegol os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau. Os ydych yn gymwys, byddech yn ei dderbyn os caiff y tymheredd yn eich ardal ei gofnodi fel, neu y rhagwelir y bydd yn 0oC neu is am 7 diwrnod yn olynol.

**Taliad Tywydd Gaeaf**
Cymorth di-dreth i'ch helpu i dalu eich biliau gwresogi os cawsoch eich geni ar neu cyn dyddiad penodol. Fel arfer caiff ei dalu'n awtomatig os ydych yn cael y Pensiwn Gwladol neu fudd-dal cymdeithasol arall, ac eithrio Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Gyngor, Budd-dal Plant neu Gredyd Cynhwysol.

I gael mwy o wybodaeth a gwirio os ydych yn gymwys ewch i:
**gov.uk/winter-fuel-payment/overview**

## HELP ARALL SYDD AR GAEL

**Gallech fod eisiau cymorth i weithio drwy pa ran o'r llyfryn hwn sy'n fwyaf perthnasol i chi neu efallai y gallech fod eisiau trafod cael help. Beth bynnag yw'r mater, mae sefydliadau arall a all helpu.**

### Cyngor Ar Bopeth

Mae gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys ynni.

### Gallant helpu gyda phethau fel:

- Sut i newid cyflenwyr
- Beth i'w wneud os ydych yn cael trafferth talu eich biliau neu mewn dyled
- Arbed arian ar eich biliau ynni
- Cyngor ar feysydd eraill yn cynnwys problemau gyda budd-daliadau, dyled ac arian

**FFONIWCH EU LLINELL GYMORTH:**
**FFÔN:** 0808 223 1133* **FFÔN TESTUN:** 18001 0808 223 1133*
Ar agor dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm
**Ewch i: citizensadvice.org.uk/consumer/energy**

### National Debtline

Yn cael ei redeg gan elusen genedlaethol Money Advice Trust, mae National Debtline yn rhoi cyngor ar ddyledion pwysig tebyg i ôl-ddyledion rhent neu forgais a chymorth os yw credydwyr yn cymryd gweithredu mewn llys. Mae National Debtline hefyd yn helpu pobl i drefnu eu harian yn well ac edrych am ffyrdd i gynyddu eu hincwm. Mae'n hollol rad ac am ddim. cyfrinachol ac annibynnol.

Ewch i: **nationaldebtline.org** Ffonio: **0808 808 4000**
Ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 8pm, neu ddydd Sadwrn 9:30am - 1pm

**Pam ei fod yn bwysig?**
Caiff llawer o ynni a ddefnyddiwyd yn ein cartrefi ar gyfer pethau fel gwresogi, goleuo a choginio ei wastraffu drwy ffenestri, lloriau, drafftiau a waliau. Gallai gwneud ychydig o newidiadau bach i ostwng faint o ynni a wastreffir ostwng faint o ynni a ddefnyddiwch a hefyd ostwng eich biliau ynni.

**Beth allwch chi ei wneud?**

## 1. DECHRAU YN FACH

| Dim cost | Cost isel |
|---|---|
| Troi goleuadau nad ydynt yn cael eu defnydido i ffwrdd | Atal drafftiau |
| Gostwng y nifer y cyfarpar sydd ar y botwm parod | Insiwleiddio atig |
| Defnyddio'r botwm economi ar beirannau golchi a chyfarpar arall | Siaced ar sylindr dŵr twym domestig |
| Cau'r llenni yn y nos, eu hagor yn ystod y dydd | Bylbiau golau ynni isel |
| Dim ond berwi faint o ddŵr rydych angen yn y tegell | Falfiau rheiddiadur |
| Gwirio eich bod yn defnyddio eich gwres yn y ffordd fwyaf effeithiol **'How to use heating'** guide: **nea.org.uk/resources/information-leaflets/** | Ffoil adlewyrchu tu cefn i reiddiaduron |
| Dadmer y rhewgell ac oergell | Gwasanaeth rheolaidd ar wres canolog |

## 2. GWNEUD CAIS AM GRANT I WNEUD NEWIDIADAU MWY

### ECO (Energy Company Obligation)

Mae ECO yn gynllun gan y llywodraeth i helpu talu am newidiadau i'ch cartref a allai eich helpu i arbed ynni ac arian. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i gael mwy o wybodaeth a gweld os ydych yn gymwys.

### Pa help y gellir ei gynnig?

Gwelliannau am ddim neu ratach i arbed ynni, tebyg i:

- Insiwleiddio atig i wneud eich cartref yn dwymach
- Insiwleiddio waliau ceudod i helpu gostwng colli gwres o'ch cartref
- Boeler newydd; mae gwresogi yn aml yn rhan fawr o filiau ynni cartref, felly gallai boeler newydd wneud gwahaniaeth mawr.

## 3. SIARAD GYDA'R ARBENIGWYR

### Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae'n cynnig cyngor annibynnol ac arbenigol ar arbed ynni yn eich cartref, yn ogystal â gwybodaeth am geisiadau cyllid ar gyfer gwneud gwelliannau effeithiolrwydd ynni. Ewch i: **energysavingtrust.org.uk**

### Nyth

Mae cynllun Nyth yn cynnig ystod o gyngor di-duedd, rhad ac am ddim ac, os ydych yn gymwys, becyn o welliannau effeithiolrwydd ynni cartref rhad ac am ddim tebyg i foeler newydd, gwres canolog, insiwleiddiad neu baneli solar. Gall hyn ostwng eich biliau ynni a bod o fudd i'ch iechyd a llesiant. Ffonio **0808 808 2244** Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am - 6pm ewch i **nest.gov.uk**

## RHIFAU CYSWLLT ALLWEDDOL

| Sefydliad | Pryd i ffonio | Gwybodaeth Cyswllt |
| --- | --- | --- |
| **Eich cyflenwr** | I gael mwy o wybodaeth ar y cynlluniau y gallent eu cynnig i chi. | Bydd manylion cyswllt ar eich bil neu gyfriflen ddiweddaraf |
| **Llinell Ffôn Argyfwng Nwy (24 awr)** | Ffoniwch Gwasanaethau Argyfwng Nwy ar unwaith os ydych yn arogli nwy, neu os credwch fod nwy yn gollwng, neu os ydych yn pryderu fod tarthau yn cynnwys carbon monocsid yn dianc o gyfarpar nwy. | **0800 111 999** |
| **Llinell Gymorth Argyfwng Toriad Pŵer** | Os bu toriad pŵer yn eich ardal, cewch eich cysylltu gyda'ch gweithredydd rhwydwaith lleol a all rhoi help a chyngor. | **105**<br>Ewch i:<br>**powercut105.com** |
| **Cyngor ar Bopeth** | Cymorth wrth lenwi ffurflenni cais a thrafod eich hawliau. | **0808 223 1133**<br>Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm |
| **Money Advice Trust** | Cymorth a chwestiynau mwy cyffredinol am drin a rheoli eich arian. | **0800 808 4000**<br>Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 8pm, Dydd Sadwrn 9.30am i 1pm |

## Amser Agor Hybiau Cymunedol:

### Llyfrgell Abertyleri
9am - 5pm (Dyddiau Mawrth, Iau a Gwener) **Ar gau:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dyddiau mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

### Llyfrgell Brynmawr
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
Ar gau: 1pm - 2pm

### Llyfrgell Glynebwy
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
**Ar gau:** 1pm - 2pm

### Llyfrgell Tredegar
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mwarth a Gwener) **Ar gau:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dyddiau Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

### Llyfrgell Blaenau
9:30am - 5pm (Dyddiau Llun) **Ar gau:** 1pm - 2pm

### Llyfrgell Cwm
9:30am - 5pm (Dyddiau Iau) **Ar gau:** 1pm - 2pm

### Sefydliad Llanhiledd
10am - 5pm (Dyddiau Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

**Ewch i:** https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

**Ffôn:** 01495 311556
**Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council